

Adroddiad i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio

Dyddiad y cyfarfod 28 Gorffennaf 2021

Aelod Arweiniol / Swyddog Julian Thompson Hill

Awdur yr Adroddiad Steve Gadd, Pennaeth Cyllid ac Eiddo

Teitl Ymholiadau Archwilio 2020/21

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

I gyflwyno Llythyr Ymholiadau Archwilio ac ymateb y Cyngor i'r ymholiadau hynny.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Mae gan Swyddfa Archwilio Cymru, fel archwilwyr allanol penodedig CSDd, ddyletswydd i gasglu tystiolaeth am sut mae rheolwyr a'r unigolion hynny sydd â chyfrifoldeb dros lywodraethu (y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn CSDd) yn cyflawni eu dyletswyddau i atal a chanfod twyll. Mae'r llythyr yn nodi'r gofynion a manylion yr ymatebion wedi'u cynnwys yn **Atodiad 1 a 2**.

3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn cadarnhau yn ffurfiol yr ymatebion sydd wedi'u cynnwys yn Atodiad 2 i'r adroddiad hwn.

4. Manylion yr Adroddiad

Mae ymatebion y rheolwr (Steve Gadd, Pennaeth Cyllid ac Eiddo) a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio (Cynghorydd Barry Mellor, Cadeirydd y Pwyllgor) wedi'u nodi yn Atodiad 2. I grynhoi, mae'r ymatebion yn nodi ymagwedd y Cyngor tuag at y meysydd canlynol o lywodraethu:

- Prosesau rheoli sydd ar waith i adnabod a lliniaru yn erbyn y risg o dwyll.

- Ymwybyddiaeth o unrhyw achosion gwirioneddol neu honedig o dwyll.
- Prosesau i gael sicrwydd y cydymffurfiwyd â'r holl gyfreithiau a rheoliadau perthnasol.
- A oes unrhyw ymglyfreithiad posibl neu hawliadau a fyddai'n effeithio ar y datganiadau ariannol.
- Prosesau i adnabod, awdurdodi, cymeradwyo, cyfrif am a datgelu trafodion partïon cysylltiedig a pherthnasoedd.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Mae'r broses archwilio allanol flynyddol yn sail i stiwardiaeth a llywodraethu ariannol y Cyngor ac felly mae'n cefnogi holl wasanaethau a blaenoriaethau'r Cyngor.

6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Does dim costau ychwanegol yn codi o ganlyniad i'r adroddiad hwn.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?

Barn broffesiynol y Swyddog Adran 151 yw nad oes angen Asesiad o'r Effaith ar Les ar gyfer yr adroddiad hwn.

8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

Gofynnodd Swyddfa Archwilio Cymru am ymatebion gan Steve Gadd fel Pennaeth Cyllid ac Eiddo a Swyddog Adran 151 a'r Cynghorydd Barry Mellor fel Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Mae'n bwysig fod y Cyngor yn cyflawni ei gyfrifoldeb dros atal a chanfod twyll ym mhob agwedd o'i waith. Mae'r sicrwydd y mae Swyddfa Archwilio Cymru yn ei geisio mewn cysylltiad â thwyll yn ffurfio gwiriad defnyddiol i sicrhau bod prosesau priodol ar waith i adnabod a lliniaru yn erbyn y risg o dwyll.

10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

Y risg yw y gallai twyll arwain at gamddefnyddio asedau'r Cyngor neu gamddefnyddio neu gam-fynegi datganiadau ariannol. Mae'r ymatebion gan reolwyr a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn helpu i ddangos fod prosesau ar waith er mwyn adnabod ac ymateb i'r risg o dwyll a bod digon o reolaethau mewnol ar waith i liniaru'r risgiau hynny.

11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

Mae'r Safon Ryngwladol ar Archwilio (Y DU ac Iwerddon) 240 (ISA 240) yn nodi mai'r rheolwyr a'r 'rheini sydd yng ngofal llywodraethu', sef y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yng Nghyngor Sir Ddinbych, sydd yn bennaf gyfrifol am atal a chanfod twyll. Mae ISA 240 yn nodi'r gofyniad am archwiliad allanol i gael dealltwriaeth o sut mae'r Cyngor yn cyflawni ei gyfrifoldebau.